

PWYLLGOR CYNLLUNIO
6 TACHWEDD 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd Y Sir, yr Wyddgrug dydd Mercher, 6 Tachwedd 2019.

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd David Wisinger (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Veronica Gay, Patrick Heesom, Christine Jones, Richard Jones, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr: Marion Bateman, David Evans, Dave Hughes, Kevin Hughes, a Richard Lloyd

HEFYD YN BRESENNOL:

Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi); Rheolwr Datblygu; Arweinydd Tîm – Polisi; Uwch Gynllunwyr; Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygu Priffyrdd; Cyfreithiwr; a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd.

32. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyngorydd Owen Thomas gysylltiad personol â'r eitem agenda 6.2 (060131) gan fod aelod o'r teulu wedi gwrthwynebu'r cais. Felly, bydd yn gadael yr ystafell cyn y drafodaeth ac yn pleidleisio ar yr eitem hon.

33. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a ddosbarthwyd yn y cyfarfod, ac yr oedd wedi'u hatodi i'r agenda ar wefan Cyngor Sir Y Fflint:

<http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4596&Ver=4&LLL=0>

Planning 06.11.19 late observations

34. COFNODION

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2019 eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

PENDERFYNWYD:

Bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnod cywir.

35. EITEMAU I'W GOHIRIO

Nid oedd dim eitemau wedi'u hargymell i'w gohirio.

36. **ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

PENDERFYNWYD:

Bod y penderfyniadau hynny yn cael eu cofnodi fel y dengys yn yr atodlen Cais Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

37. **AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Roedd 15 aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 2.16 pm)

.....
Cadeirydd

Mae cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cynllunio yn cael eu gweddarlledu a gellir eu gwyllo drwy fynd ar lyfrgell gweddarllediad yn: <http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home>

PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 6 TACHWEDD 2019

| RHIF | CYNGHORAU TREF/CYMUN ED | SAFLE / CYNNIG | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|-------------|--|---|--|---|
| 060292 | Cyngor Cymuned Northop Hall | Cais llawn – Ailddatblygu Gwesty Plas Ifan i 24 annedd preswyl a Isadeiledd cysylltiedig yng Ngwesty Plas Ifan, Northop Hall. | Siaradodd Mr G. Jenkins yn erbyn y cais. Siaradodd Mr J Storey, Asiant i gefnogi'r cais. Siaradodd y Cyngorydd J Golledge, Cyngor Cymuned Northop Hall yn erbyn y cais. Cymerwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar argymhelliad y Swyddog Cynllunio i wrthod caniatâd cynllunio oherwydd y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad. Wrth wneud cais am bleidlais wedi'i chofnodi, bu i nifer gofynnol o Aelodau gefnogi. | Gwrthod y caniatâd cynllunio yn unol ag argymhellion y swyddog. |
| 060131 | Cyngor Tref yr Wyddgrug | Diwygiad i Plot 36 – Darparu Ystafell Haul yn 2 Ffordd Yr Hydref, yr Wyddgrug | Ni fu i'r Cyngorydd Owen Thomas, a ddatganodd gysylltiad personol sy'n rhagfarnu, siarad am yr eitem, a gadawodd yr ystafell cyn y drafodaeth, gan ddychwelyd ar ôl i'r Pwyllgor benderfynu ar y cais. Siaradodd Miss H Randles i gefnogi'r cais. | I ganiatáu'r caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar eglurhad o delerau'r adroddiad, yn unol ag argymhelliad y Swyddog. |